


Emynau a Darlleniadau



Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

Cymun Bendigaid ar Gân

Sul y Drindod • 31 Mai 2026

Gosodiad

Gwasanaeth Cymun yn E-fflat, Leonard J. White (1910-1973)

Llywydd

Pregethwr

Canon Tracy

Deon Manon

Emyn Agoriadol



Sanctaid, sanctaid, sanctaid!
Dduw hollgyfoethog,
gyda gwawr y bore dyrchafwn iti gân;
sanctaid, sanctaid, sanctaid!
mawr wyt a thrugarog —
Duw mewn Tri Pherson — Trindod ddiwahân.

Sanctaid, sanctaid, sanctaid!
dy holl Saint a'th folant,
bwriant eu coronau o flaen y fainc i lawr:
engyl a seraphiaid glân a'th ogoneddant
beunydd a byth i dragwyddoldeb mawr.

Sanctaid, sanctaid, sanctaid! twyllwch a'th
orchuddia,
ni all llygad gwael bechadur edrych ar dy wedd;
sanctaidd wyt yn unig: ti, Dduw, sydd orucha'
mewn clod, a gallu, cariad pur, a hedd.

Sanctaid, sanctaid, sanctaid!
Dduw hollgyfoethog,
dy holl waith a'th fawl di
mewn gogoneddus gân;
sanctaid, sanctaid, sanctaid!
mawr wyt a thrugarog —
Duw mewn Tri Pherson — Trindod ddiwahân.

Geiriau

Reginald Heber (1783-1826);

cyf. Nicander (Morris Williams, 1809-1876)

Cerddoriaeth | "Lilian"

Tom Price (1857-1925)

Gloria in excelsis Deo

Cân ogoniant i'r goruchaf,
datgan hedd i blant y llawr.
Arglwydd Dduw, ein Brenin nefol,
hollalluog Arglwydd lôr!
Ti fendithiwn, ti addolwn,
gogoneddwn, molwn di:
rhodder iti fythol foliant,
sanctaid, sanctaid, sanctaid lôr!

Crist ein Harglwydd, Fab y Tad,
Arglwydd Dduw, y dwyfol Oen;
ti sy'n dwyn ein holl bechodau,
dy drugaredd rho i ni.
Gorseddedig ar ddeuheulaw'r
Hollalluog, clyw ein cân,
rhodder iti fythol foliant,
sanctaid, sanctaid, sanctaid lôr!

Ti yn unig sydd yn sanctaid,
ti yn unig yw yr lôr,
ti yn unig sy'n oruchaf,
Iesu Grist, ein Harglwydd Dduw.
Gyda'r Ysbryd ti wyt Un,
yng nghogoniant y Duw Dad,
rhodder iti fythol foliant,
sanctaid, sanctaid, sanctaid lôr!

Geiriau | Words

Gillian Williams

Cerddoriaeth | Music | "Sanctus"

Isalaw (John Richards, 1843-1901)

Colect

Hollalluog a thragwyddol Dduw, rhoddaist ras i ni
dy weision, gan gyffesu ac arddel y wir ffydd, i
gydnabod gogoniant y Drindod dragwyddol ac
addoli'r Undod yn nerth y dwyfol fawredd: cadw ni'n
ddiysgog yn y ffydd hon, a'n hamddiffyn byth rhag
pob trallod; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn
un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Salm 8



Y Mor brydferth ac mor fawr yw d'Enw sanctaid di.

R Mor brydferth ac mor fawr
yw d'Enw sanctaid di.

O ARGLWYDD, ein lôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr
holl ddaear! Gosodaist dy ogoniant uwch y nefoedd,
codaist amddiffyn rhag dy elynion o enau babanod
a phlant sugno, a thawelu'r gelyn a'r dilydd. **R**

Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y
lloer a'r sêr, a roddest yn eu lle, beth yw meidrollyn,
iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano? **R**

Eto gwnaethost ef ychydig islaw duw a'i goroni â
gogoniant ac anrhydedd. Rhoist iddo awdurdod ar
waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei draed: **R**

Defaid ac ychen i gyd, yr anifeiliaid gwylltion
hefyd, adar y nefoedd, a physgod y môr, a
phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd. **R**

O ARGLWYDD, ein lôr, mor ardderchog
yw dy enw ar yr holl ddaear! **R**

Cerddoriaeth

Sam Jones

2 Corinthiaid 13:11-13

Bellach, gyfeillion, ffarwel. Mynnwch eich adfer, gwrandewch ar fy apêl, byddwch o'r un meddwl, a byw'n heddychlon; a bydd Duw'r cariad a'r tangnefedd gyda chwi. Cyfarchwch eich gilydd â chusan sanctaidd. Y mae'r saint i gyd yn eich cyfarch. Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll!

Mathew 28:16-20

Aeth yr un disgybl ar ddeg i Galilea i'r mynydd lle y trefnodd Iesu iddynt fod; a phan welsant ef addolasant ef, er bod rhai yn amau. Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser."

Emyn yr Offrwm



Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, oddi fry,
gwna ein calonau iti'n dŷ;
â'th ras cysegra ni bob un
yn fywiol deml i ti dy hun.

Rho in dywalltiad helaeth iawn
o nefol rin dy ddwyfol ddawn;
doethineb, nerth, goleuni clir,
llawn hyder ffydd, a chariad gwir.

O rho dy fendith ar dy waith,
a rho dy wyneb ar ein taith,
nes uno gyda'r sanctaidd lu,
i'th foli byth mewn gwynfyd fry!

I'r Drindod sanctaidd ddiwahân,
y Tad, a'r Mab, a'r Ysbyrd Glân,
rhown glodydd gwiw, ag uchel lef,
ein dyled yw ei ganmol ef. Amen.

Geiriau

Gwilym Berw (William Lewis; 1845-1917)
Cerddoriaeth | "Deep Harmony"
Handel Parker (1854-1928)

Emyn Ôl-Gymun



Tyrd O Dduw yn nyddiau'r gormes,
dyddiau blin y sychder hir,
rho dy dân ar ein hallorau,
anfon dy gawodydd ir.
Dyro eto, dyro eto
fuddugoliaeth Carmel gynt,
fuddugoliaeth Carmel gynt.

Pan defysga'r tywysogion
a'u proffwydi gau i gyd,
boed i'th heddwch di ddiabedain
goruwch holl drybestod byd.
Mil grymusach, mil grymusach
dy ddistawrwydd llethol di,
dy ddistawrwydd llethol di.

Rho i ninnau ddawn i wrando
ar dangnefedd gwâr dy lais.
mewn tawelwch y preswylly
nid mewn corwynt, mellt na thrais.
Grym dy osteg, grym dy osteg,
trech na thrwst brenhinoedd yw,
trech na thrwst brenhinoedd yw.

Boed in ymneilltuo weithiau
rhag y byd a'i ddychrynfeydd;
ymneilltuo nes dy ganfod,
yna dod o'n preswylfeydd
i gyhoeddi, i gyhoeddi
ac i wneud d'ewylllys di,
ac i wneud d'ewylllys di.

Geiriau

Gwynn ap Gwilym (1950-2016)
Cerddoriaeth | "Tyddyn Llwyn"
Llew Madog (Evan Morgan, 1846-1920)